



Datganiad Meincnodi Pwnc

Y Gymraeg

Y pumed argraffiad

(Fersiwn ar gyfer ymgynghori)
5 Hydref 2026

Cynnwys

Ynghylch y Datganiad hwn	1
Sut ydw i'n defnyddio'r ddogfen hon?	1
Y berthynas â deddfwriaeth	1
Pwyntiau cyfeirio ychwanegol y sector	2
1. Cyd-destun a dibenion gradd yn y Gymraeg	3
Dibenion a nodweddion gradd yn y Gymraeg	3
Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant	4
Hygyrchedd ac anghenion myfyrwyr ag anableddau	4
Addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy	5
Addysg cyflogadwyedd, mentergarwch ac entrepreneuriaeth	6
Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol	6
2. Nodweddion arbennig gradd yn y Gymraeg	8
Cynllun/Dyluniad	8
Cynnydd	9
Hyblygrwydd	9
Partneriaeth	9
Monitro ac adolygu	10
3. Cynnwys, strwythur a darpariaeth	12
Cynnwys	12
Dysgu ac addysgu	12
Asesu	13
4. Safonau meincnodi	15
Cyflwyniad	15
5. Rhestr o gyfeiriadau ac adnoddau eraill	21

Ynghylch y Datganiad hwn

Yn y Datganiad Meincnodi Pwnc hwn ar gyfer Y Gymraeg, mae QAA yn diffinio'r hyn y gellir ei ddisgwyl gan bobl sydd wedi graddio yn y pwnc, o ran yr hyn y gallant ei wybod, ei wneud a'i ddeall ar derfyn eu hastudiaethau. Mae Datganiadau Meincnodi Pwnc yn rhan sefydledig o'r trefniadau sicrhau ansawdd ym maes addysg uwch y DU, ond nid ydynt yn ofyniad rheoleiddiol. Maen nhw'n bwyntiau cyfeirio ar gyfer y sector penodol, a ddatblygwyd ac a ysgrifennwyd gan academyddion. Hefyd, mae Datganiadau Meincnodi Pwnc yn disgrifio natur a nodweddion y dyfarniadau mewn disgyblaeth benodol neu faes astudio penodol. Mae QAA yn cyhoeddi Datganiadau Meincnodi Pwnc yn ei rôl fel corff o arbenigwyr sy'n sicrhau ansawdd ar ran y sector addysg uwch. Hefyd, mae crynodeb o'r Datganiad i'w weld ar wefan QAA.

Mae'r newidiadau allweddol a wnaed ers fersiwn blaenorol y Datganiad Meincnodi Pwnc yn cynnwys:

- strwythur diwygiedig i'r Datganiad, sy'n cynnwys cyflwyno'r themâu trawstoriadol a ganlyn:
 - cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
 - hygyrchedd ac anghenion myfyrwyr ag anableddau
 - addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy
 - addysg cyflogadwyedd, mentergarwch ac entrepreneuriaeth
 - deallusrwydd artifisial (DA) cynhyrchiol
- adolygiad cynhwysfawr sy'n diweddu'r cyd-destun a'r dibenion, yn cynnwys cynllun a chynnwys y cwrs er mwyn hysbysu a thanategu'r safonau meincnodi diwygiedig.

Sut ydw i'n defnyddio'r ddogfen hon?

Nid yw'r Datganiadau Meincnodi Pwnc wedi eu bwriadu i ragnodi unrhyw ddulliau penodol o addysgu, dysgu neu asesu. Yn hytrach, maen nhw'n darparu fframwaith y mae cymuned y pwnc wedi cytuno arno, sy'n ffurfio'r sail y gall y rheiny sy'n gyfrifol am lunio, cymeradwyo a diweddu'r cwricwla ei defnyddio wrth ystyried cwrs a'r modiwlau sy'n rhan ohono. Mae hyn yn caniatáu hyblygrwydd ac arloesedd wrth lunio cyrsiau gan hefyd ddarparu pwynt cyfeirio allanol a dderbynnir yn eang ar gyfer y maes hwnnw.

Gallan nhw hefyd gael eu defnyddio fel pwynt cyfeirio gan arholwyr allanol pan fyddant yn ystyried a yw cynllun cwrs a'r safonau cyflawniad trothwy'n gymaradwy â rhai darparwyr addysg uwch eraill. Yn ogystal, mae datganiadau'n gallu cefnogi cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (cyrff PSRh) gyda'u diffiniadau a'u dehongliadau o safonau academiaidd.

Efallai y byddwch eisiau darllen y ddogfen hon os ydych:

- yn ymwneud â llunio, darparu ac adolygu cyrsiau Cymraeg
- yn ddarpar fyfyrwr sy'n ystyried astudio cwrs Cymraeg
- yn gyflogwr sydd eisiau gwybod pa wybodaeth a sgiliau a ddisgwylir fel arfer gan bobl sydd wedi graddio yn y Gymraeg.

Y berthynas â deddfwriaeth

Ar ysgwyddau'r darparwr addysg uwch sy'n dyfarnu'r radd y mae'r cyfrifoldeb am safonau academiaidd. Mae darparwyr addysg uwch yn gyfrifol am ateb gofynion y ddeddfwriaeth ac unrhyw ofynion rheoleiddiol eraill a roddir arnynt gan eu cyrff cyllido a rheoleiddio perthnasol. Nid yw'r Datganiad hwn yn dehongli deddfwriaeth nac yn ymgorffori gofynion statudol neu reoleiddiol.

Bydd statws Datganiadau Meincnodi Pwnc yn amrywio yn dibynnu ar awdurdodaeth addysgol benodol y DU. Yn Lloegr, nid oes gan Ddatganiadau Meincnodi Pwnc statws [y safonau a gydnabyddir gan y sector](#), fel sydd wedi ei nodi yn [fframwaith rheoleiddio'r Swyddfa Myfyrwyr](#). Fodd bynnag, mae Datganiadau Meincnodi Pwnc yn rhan o'r gofynion ansawdd cyfredol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Am fod y Datganiad yn disgrifio'r deilliannau a phriodoleddau a ddisgwylir gan fyfyrwyr ar y safon cyflawni trothwy drwy'r DU gyfan, bydd nifer o ddarparwyr addysg uwch yn eu defnyddio i'w helpu wrth ddylunio a chymeradwyo cyrsiau, ac ar gyfer gwaith monitro ac adolygu dilynol, yn ogystal â helpu i ddynodi diogelwch y safonau academaidd.

Pwyntiau cyfeirio ychwanegol y sector

Mae'n debygol y bydd darparwyr addysg uwch yn ystyried pwyntiau cyfeirio eraill yn ogystal â'r Datganiad hwn wrth lunio, darparu ac adolygu cyrsiau. Gallai'r rhain gynnwys gofynion sydd wedi eu pennu gan gyrff PSRh a disgwyliadau gan ddiwydiant neu gyflogwyr. Yn 2024, cyhoeddodd QAA ddiweddariad i'r [Cod Ansawdd](#), a fydd yn ddefnyddiol wrth ddefnyddio'r Datganiad hwn.

Mae esboniadau ar gael o dermau anghyfarwydd sydd wedi eu defnyddio yn y Datganiad Meincnodi Pwnc hwn yn [Rhestr Termiau QAA](#). Mae ffynonellau gwybodaeth am ofynion ac enghreifftiau o arweiniad ac arferion da wedi eu cyfeirio o fewn y Datganiad lle bo'n briodol.

1. Cyd-destun a dibenion gradd yn y Gymraeg

1.1 Mae astudio'r Gymraeg yn allwedd i ddeall a dysgu am brofiadau, diwylliant, cymdeithas a syniadau unigolion a chymunedau Cymraeg eu hiaith ddod a heddiw, ac yn agor drysau i ddeall mwy am brofiadau pobl ar draws y byd. Mae modd astudio'r Gymraeg fel gradd anrhydedd sengl, neu fel rhan o radd anrhydedd gyfun neu gydanrhydedd. Fel arfer, y Gymraeg fydd cyfrwng y dysgu a'r asesu. Ar gyrsiau meistr ôl-raddedig wedi'u haddysgu a thrwy ymchwil, mae modd i fyfyrwyr arbenigo yn eu priod feysydd yn unol â'r ddarpariaeth a gynigir gan ddarparwyr addysg uwch unigol. Bydd y Datganiad Meincnodi Pwnc hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar raglenni israddedig sy'n cynnwys y Gymraeg fel pwnc.

1.2 Gall gradd yn y Gymraeg gynnwys astudio un neu ragor o'r ieithoedd Celtaidd eraill a'u llenyddiaeth, gweithiau llenyddol mewn ieithoedd eraill a chyd-destunau amlieithog rhyngwladol. Mae pwnc y Gymraeg yn cynnig llawer o gyfleoedd ar gyfer astudiaethau rhyngddisgyblaethol a chymharol o fewn cynlluniau gradd anrhydedd sengl. Hefyd, mae perthynas sydd o fudd i'r ddwy ochr rhwng pwnc y Gymraeg a nifer o ddisgyblaethau academaidd eraill. Dylai darparwyr gynllunio cyfleoedd digonol i gyfuno'r Gymraeg â phynciau eraill er mwyn sicrhau dewis i fyfyrwyr. O gyfuno'r Gymraeg â phwnc arall, mae'n bosibl y bydd rhai meysydd yn gorgyffwrdd (er enghraifft, ar radd Cymraeg a'r Cyfryngau neu radd Cymraeg a Newyddiaduraeth), ac y gellir manteisio ar gyfleoedd pellach drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pwnc arall. Mae'r [Coleg Cymraeg Cenedlaethol](#) yn hwyluso astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg ochr yn ochr â'r pwnc ei hun.

Dibenion a nodweddion gradd yn y Gymraeg

1.3 Mae gradd yn y Gymraeg yn cynnig cyfle unigryw i archwilio a gwerthfawrogi'r Gymraeg yn ei holl goethder, gan gyfuno gwahanol agweddau ar iaith, creadigrwydd a diwylliant. Mae'n faes eang, rhyngddisgyblaethol sy'n galluogi i fyfyrwyr archwilio'r berthynas rhwng iaith, llenyddiaeth, hunaniaeth a chymdeithas yng nghyd-destun profiadau siaradwyr y Gymraeg mewn gwahanol gyfnodau. Dyma radd hyblyg sy'n ennyn brwdfrydedd myfyrwyr yn y pwnc: gellir cynnig trywyddau amrywiol er mwyn galluogi i fyfyrwyr ddilyn eu diddordebau, gan ddarparu amrywiaeth o sgiliau trosglwyddadwy sydd â galw mawr amdanynt.

1.4 Yng nghyd-destun strategaeth '[Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr](#)' Llywodraeth Cymru, mae astudio'r Gymraeg fel pwnc yn bwysicach nag erioed. Mae gradd yn y Gymraeg yn arfogi myfyrwyr â'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i gefnogi'r cymunedau a'r sectorau diwydiannol a all wireddu a darparu'r weledigaeth hon, ac yn eu grymuso â'r hyder i gymryd rhan weithredol mewn cynnal ac adfywio'r Gymraeg.

1.5 Mae'r pwnc yn rhoi'r sgiliau i fyfyrwyr o bob cefndir ddod yn gyfathrebwyr medrus sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol ac yn broffesiynol mewn ystod eang o sefyllfaoedd. Bydd rhaglenni gradd yn y Gymraeg yn cefnogi myfyrwyr o amrywiaeth o gefndiroedd ieithyddol sydd wedi dilyn llwybrau gwahanol at y Gymraeg (gwelwch adran 2.4 am fanylion pellach).

1.6 Mae astudio am radd yn y Gymraeg yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr archwilio hunaniaethau mewn perthynas â Chymru a'r Gymraeg trwy lenyddiaeth, diwylliant a'r iaith, gan gynnwys ystyried eu perthynas eu hunain â'r Gymraeg. Bydd graddedigion hefyd yn deall cyd-destun diwylliannol a hanesyddol y Gymraeg, a'i pherthynas â diwylliannau ac ieithoedd eraill.

1.7 Drwy astudio llenyddiaeth, sosioieithyddiaeth ac ieithyddiaeth, mae gradd yn y Gymraeg yn meithrin meddylwyr beirniadol sy'n gallu craffu ar fanylion cynnil a'u dadansoddi'n fanwl, gan osod eu dealltwriaeth hefyd yng nghyd-destun y darlun Cymreig a byd-eang ehangach.

1.8 Bydd gradd yn y Gymraeg yn tanio dychymyg myfyrwyr ac yn eu hysgogi i ymateb yn greadigol a dychmygus i wahanol heriau. Yn ogystal â chael y cyfle i ysgrifennu'n greadigol, bydd myfyrwyr yn gwerthfawrogi sut y mae creadigrwydd yn ganolog i nifer o gyd-destunau amrywiol, o'r ystafell ddosbarth i'r byd marchnata, o'r uned gyfieithu i lawr y Senedd, a llawer mwy.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

1.9 Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cwmpasu ystod eang o nodweddion gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, iaith, hil, ethnigrwydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, anabledd, oed a chefnidir sosioeconomaidd a gwneir pob ymdrech i gynnwys ymwybyddiaeth o'r rhain a chreu amgylchedd cynhwysol i bob myfyriwr sy'n astudio'r Gymraeg.

1.10 Bydd darparwyr yn mabwysiadu dull rhagweithiol ac adfyfyriol o ymdrin â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth ddylunio rhaglenni graddau Cymraeg ac wrth lunio strategaethau dysgu, addysgu ac asesu. Bydd hyn yn galluogi i fyfyrwyr wireddu eu potensial, meithrin ymdeimlad o berthyn, gwella eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o safbwyntiau eraill, a datblygu ymagwedd gynhwysol, adfyfyriol a beirniadol. Bydd hyn yn galluogi i fyfyrwyr gyfrannu'n gadarnhaol at gynnal gweithleoedd a chymunedau sy'n blaenoriaethu amrywiaeth a chydraddoldeb.

1.11 Bydd ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn amlwg ar bob rhaglen radd mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys:

- darparu cyfleoedd cynhwysol i fyfyrwyr rannu eu profiadau a'u safbwyntiau eu hunain mewn amgylchedd diogel, heb ragfarn na barnu, gan werthfawrogi safbwyntiau a phrofiadau amrywiol
- rhoi gweladwyedd i amrywiaeth o hunaniaethau o fewn y cwricwlwm er mwyn galluogi i fyfyrwyr weld eu hunain ac eraill, a datblygu ymdeimlad o berthyn i'r gymuned ddysgu a'r ddisgyblaeth
- darparu cyfleoedd i fyfyrwyr gydnabod a thrafod profiadau siaradwyr o gefndiroedd ieithyddol amrywiol
- drwy archwilio amrywiaeth eang o destunau, tafodieithoedd, cyweiriau ieithyddol a sefyllfaoedd, bydd myfyrwyr yn meithrin parch at bobl eraill a dealltwriaeth o amrywiadau'r Gymraeg a'u defnydd mewn cyd-destunau amrywiol
- sicrhau bod myfyrwyr yn dod i gysylltiad ag amrywiaeth eang o destunau creadigol ac academiaidd gan unigolion o gefndiroedd gwahanol, gydag ystyriaeth arbennig i hunaniaethau sydd wedi'u tangynrychioli ac amlddiwylliannedd.

Gall darparwyr hefyd annog myfyrwyr i fod yn rhagweithiol a chynnig testunau i'w cynnwys. Bydd arferion o'r fath yn rhan o broses barhaus o drawsnewid ac archwilio'r cwricwlwm er mwyn cwestiynu rhagdybiaethau a herio strwythurau grym ac anghydraddoldebau a all fod ymhlyg o fewn y ddisgyblaeth ac yn y gymdeithas ehangach. Gall hyn olygu ystyried safbwyntiau byd-eang ac yn aml, bydd darparwyr yn cymharu sefyllfa'r Gymraeg â chyd-destunau ieithyddol y tu hwnt i'r Gymraeg, ieithoedd Celtaidd ac ieithoedd Ewropeaidd.

1.12 Bydd astudio'r Gymraeg yn gyfle i fyfyrwyr ddysgu am sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymunedol ac iaith leiafrifedig a'i pherthynas ag ieithoedd lleiafrifol a lleiafrifedig eraill, mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae bod yn rhan o gymuned o siaradwyr iaith leiafrifedig yn cynnig persbectif pwysig i fyfyrwyr, a dylai'r rhaglenni sicrhau bod myfyrwyr yn datblygu ymwybyddiaeth o hawliau siaradwyr y Gymraeg a'r fframweithiau deddfwriaethol sy'n eu hategu. Trwy eu hastudiaethau, mae'r myfyrwyr eu hunain hefyd yn cyfrannu at barhad, hyfywedd a dyfodol yr iaith, ac o ganlyniad maen nhw'n cyfrannu'n weithredol at sicrhau amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol fyd-eang.

Hygyrchedd ac anghenion myfyrwyr ag anableddau

1.13 Mae'r Gymraeg yn bwnc sy'n denu ac yn croesawu myfyrwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd, gan greu amgylchedd dysgu cyfoethog a chefnogol i bawb. Dylai rhaglenni a modiwlau unigol ymrwymo i hygyrchedd gwirioneddol, gan roi sylw'n rhagweithiol i anghenion

mynediad a chynwysoldeb yn y ffordd y mae'r cyrsiau'n cael eu cynllunio a'u darparu. Dylai pob agwedd ar y cyrsiau - y cynnwys, yr addysgu, yr asesu, y gweithgareddau, y teithiau maes a phob gweithgarwch cysylltiedig arall - fod yn hygyrch ac yn gynhwysol i bawb.

1.14 Wrth gynllunio rhaglenni a modiwlau unigol dylid ymgorffori amrywiaeth o ddulliau addysgu ac asesu er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn ymgysylltu â'u haddysg mewn amryfal ffyrdd. Dylai'r timau sy'n gyfrifol am gynllunio, addysgu a darparu'r rhaglenni fod yn rhagweithiol, a rhagweld pa addasiadau rhesymol a allai fod yn angenrheidiol i fyfyrwyr anabl, heb i'r myfyrwyr orfod gofyn amdanynt. Mae rhaglenni gradd yn y Gymraeg yn rhoi gwerth arbennig ar ddatblygu sgiliau cyfathrebu llafar; ond, dylai bod modd i fyfyrwyr ag anableddau sy'n effeithio ar gyfathrebu allu cyflawni'r deilliannau dysgu drwy ddulliau ymgysylltu ac asesu amgen. Dylid cynnwys y myfyrwyr eu hunain yn y broses o lunio ac adolygu'r cwricwlwm er mwyn cefnogi'r amcanion hyn.

1.15 Dylai darparwyr rhaglenni gradd yn y Gymraeg gydweithio ag unedau sicrhau a gwella ansawdd eu sefydliadau er mwyn ystyried a hyrwyddo tegwch a chyfleoedd cyfartal i bob myfyriwr, gan ddileu unrhyw bethau a all rwystro myfyrwyr anabl rhag cyfranogi'n llawn o'r cyrsiau. Dylid egluro i'r myfyrwyr o'r cychwyn beth yw disgwyliadau'r cwrs a pha gefnogaeth a chymorth sydd ar gael iddynt.

1.16 Dylai myfyrwyr gael mynediad llawn at adnoddau dysgu digonol, yn cynnwys technoleg gynorthwyol, er mwyn cefnogi eu gwaith dysgu unigol. Dylid sgaffaldio'r dysgu i sicrhau hygyrchedd, gan ddefnyddio platfformau dysgu ar-lein ac adnoddau a deunyddiau dysgu digidol.

1.17 Bydd myfyrwyr yn ymuno â rhaglenni gradd Cymraeg o amrywiaeth o gefndiroedd ieithyddol, a dylid ystyried hynny wrth gynllunio a darparu'r rhaglenni. Bydd darparwyr addysg uwch unigol yn gosod eu meini prawf mynediad eu hunain ar gyfer lefel mynediad graddau gan gynnig llwybrau neu drywyddau penodol ar gyfer myfyrwyr yn ôl eu hanghenion ieithyddol, gyda chefnogaeth ychwanegol fel bo'r gofyn. Dylid sicrhau bod pob myfyriwr yn ymwybodol o'r adnoddau a'r technolegau iaith sydd ar gael i'w cynorthwyo i gyfathrebu'n hyderus yn Gymraeg.

1.18 Bydd ymwybyddiaeth ddiwylliannol myfyrwyr yn amrywio hefyd, ac ni ddylai darparwyr gymryd yn ganiataol fod pob aelod o'r cwrs yn rhannu'r un wybodaeth ddiwylliannol. Dylid sicrhau bod rhaglenni a modiwlau unigol yn hygyrch ac yn agored i bawb, gan gefnogi myfyrwyr i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddiwylliannol sydd eu hangen arnynt i ymgysylltu'n hyderus ac yn effeithiol â'r pynciau dan sylw.

Addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy

1.19 Wrth astudio'r Gymraeg, bydd cyfle i fyfyrwyr archwilio'r gydberthynas rhwng y ffactorau cymdeithasol, seicolegol, economaidd ac amgylcheddol sy'n effeithio ar gynaliadwyedd y Gymraeg fel iaith, ei rhwydweithiau a'i diwylliant. Yn y cyswllt hwn, mae'n bosib archwilio cyfleoedd rhyngddisgyblaethol a/neu trawsddisgyblaethol i archwilio enghreifftiau lleol a byd eang o adfywio ieithoedd lleiafrifol yng nghyd-destun [Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig \(2015\)](#).

1.20 Mae rhaglenni gradd yn y Gymraeg yn aml yn clymu elfennau llenyddol, ieithyddol a chymdeithasol gyda chynaliadwyedd a heriau amgylcheddol drwy ddadansoddi'r berthynas rhwng pobl a byd natur, a gwneud hynny drwy edrych ar y cyd-destun hanesyddol a chyfoes. Gall hyn gynnwys archwilio'r berthynas rhwng ieithoedd a'r dirwedd, gan ystyried sut y mae datblygiadau diwydiannol, economaidd a chymdeithasol wedi effeithio ar hyfywedd, dirywiad a thynged iaith a diwylliant lleiafrifol.

1.21 Mae astudio'r Gymraeg hefyd yn datblygu ymwybyddiaeth feiriadol myfyrwyr o gyfiawnder cymdeithasol, cydraddoldeb, ac iechyd a lles er mwyn ysgogi newid a chreu gwell byd. Drwy

archwilio'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith, creu llenyddiaeth a chynnal diwylliant, daw myfyrwyr yn effro i effaith systemau ar bobl a chymunedau, a rôl llenyddiaeth a chreadigrwydd wrth archwilio a chynnig atebion i heriau byd eang.

1.22 Ystyrir perthynas y Gymraeg gyda phrosiectau, datblygiadau a fframweithiau deddfwriaethol sydd â'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn greiddiol iddynt. Yn eu plith, gellir ystyried trafod deddfau perthnasol megis [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(2015\)](#) sy'n pwysleisio'r angen i ddiwallu "anghenion y presennol [...] heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau". Dylid cynnig cyfleoedd i ddadansoddi cynaliadwyedd ieithyddol a diwylliannol, gan roi'r cyfle i fyfyrwyr archwilio sut y gall eu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth gyfrannu'n gadarnhaol at gynaliadwyedd y Gymraeg.

Addysg cyflogadwyedd, mentergarwch ac entrepreneuriaeth

1.23 Mae astudio'r Gymraeg yn agor drysau i ystod eang o yrfaoedd llwyddiannus ac amrywiol. Wrth i'r Gymraeg gael ei hyrwyddo a'i defnyddio'n gynyddol mewn bywyd cyhoeddus a phroffesiynol, mae mwy o alw nag erioed am raddedigion sydd â sgiliau lefel uwch yn y Gymraeg a dealltwriaeth soffistigedig o ddiwylliant Cymru. Trwy eu hastudiaethau, bydd myfyrwyr yn datblygu'r hyder i adnabod a gwella eu potensial i wneud cyfraniadau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ysturlon i gymdeithasau yng Nghymru a thu hwnt.

1.24 Yn ystod cwrs gradd, bydd myfyrwyr yn datblygu ystod eang o sgiliau [cyflogadwyedd, mentergarwch ac entrepreneuriaeth](#) trosglwyddadwy sy'n werthfawr iawn i gyflogwyr. Dyma radd sy'n meithrin hyder ac yn cryfhau gallu myfyrwyr i gyfathrebu'n effeithiol, ar lafar ac mewn ysgrifed, er mwyn cydweithio'n llwyddiannus gydag eraill, a chynllunio a threfnu gwaith yn annibynnol. Bydd myfyrwyr yn datblygu dulliau effeithiol o weithio a fydd yn blaenoriaethu iechyd a lles.

1.25 Bydd myfyrwyr hefyd yn datblygu'r gallu i feddwl yn feirniadol, dadansoddi testunau a syniadau, ac i asesu a gwerthuso safbwyntiau. Byddant yn herio rhagdybiaethau drwy ddadlau ac ymchwilio, ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd adfyfrio beirniadol a datblygu'r gallu i ymateb mewn ffordd wreiddiol.

1.26 Yn ogystal, mae'r radd yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr fod yn greadigol a dyfeisgar gan arbrofi gydag amrywiaeth o ffurfiau a chyweiriau ieithyddol, datblygu sgiliau digidol a defnyddio technolegau modern i greu, golygu a rhannu cynnwys Cymraeg.

1.27 Bydd myfyrwyr yn cael cyfleoedd i ymgysylltu â phrofiadau proffesiynol, megis drwy gwrdd â siaradwyr gwadd, mynd ar brofiad gwaith, ymgymryd â gweithgareddau ac asesiadau sy'n adlewyrchu sefyllfaoedd a chyd-destunau proffesiynol. Ymhellach, gallai darparwyr graddau Cymraeg ystyried cydweithio â phartneriaid (gan gynnwys myfyrwyr, cyn-fyfyrwyr a chyflogwyr) i gyd-greu cwrwllwm a deunyddiau sy'n ymgysylltu â'r cyfleoedd a heriau sy'n wynebu'r Gymraeg yn y gweithle.

Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol

1.28 Mae [Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol](#) (DA cynhyrchiol) yn faes byd-eang cymhleth sy'n newid yn gyflym. O gydnabod ystod o agweddau cadarnhaol a negyddol tuag at ddeallusrwydd artiffisial, bydd gradd yn y Gymraeg yn arfogi myfyrwyr i feddwl yn feirniadol am faterion megis:

- defnyddio'r dechnoleg mewn modd moesegol a chynaliadwy
- effaith cynnal canolfannau data mawr ar yr amgylchedd
- goblygiadau hawlfraint y dechnoleg a'i heffaith ar ymarferwyr yn y sector creadigol

- effaith hirdymor DA cynhyrchiol ar sgiliau gwybyddol, creadigol, a beirniadol defnyddwyr.

1.29 Mae DA cynhyrchiol drwy gyfrwng y Gymraeg yn faes sy'n prysur ddatblygu, gan effeithio ar nifer gynyddol o dasgau yn y gweithle Cymraeg a dwyieithog. O ganlyniad, mae'r uwch-sgiliau ieithyddol, beirniadol, a deallusol sy'n cael eu meithrin drwy astudio'r Gymraeg yn allweddol, gan eu bod yn grymuso graddedigion i herio rhagdybiaethau a chamwybodaeth, meddwl yn greadigol, datrys problemau, a deall potensial a pheryglon posib y dechnoleg mewn gwahanol gyd-destunau.

1.30 Bydd myfyrwyr yn cael cyfleoedd i werthuso dibynadwyedd cynnwys a gynhyrchir gan DA cynhyrchiol, a datblygu sgiliau golygu, ôl-olygu a phrawfddarllen, er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb mewn testunau Cymraeg. Mae'r sgiliau hyn yn gynyddol bwysig mewn byd digidol lle mae gallu barnu ansawdd gwybodaeth, golygu'n effeithiol, a gwneud defnydd cyfrifol o dechnoleg yn sgiliau allweddol yn y gweithle proffesiynol.

1.31 Mae gofyn i bob rhaglen radd yn y Gymraeg ymgymryd â chymau priodol i sicrhau gwydnwch eu hasesiadau yn wyneb heriau DA cynhyrchiol. Bydd pob darparwr addysg uwch yn rhoi polisiâu ac arferion sicrhau ansawdd a gonestrwydd academiaidd ar waith gan gydweithio â staff a myfyrwyr i greu cyd-ddealltwriaeth o'r modd y gellid defnyddio Deallusrwydd Artiffisial yn gyfrifol. Bydd darparwyr rhaglenni gradd yn amrywio ffurfiau asesu er mwyn hybu gallu myfyrwyr i gynhyrchu gwaith gwreiddiol ar gyfer gwahanol ddibenion a chynulleidfaoedd. Rhoddir pwyslais priodol ar brofi gallu myfyrwyr i gynhyrchu gwaith ar lafar ac yn ysgrifenedig heb ddibynnu ar DA cynhyrchiol.

2. Nodweddion arbennig gradd yn y Gymraeg

Cynllun/Dyluniad

2.1 Daw astudio'r Gymraeg â myfyrwyr i gysylltiad ag amrediad eang o bynciau, dulliau a chysyniadau a fydd yn dyfnhau eu gallu i feddwl yn feirniadol ac ymateb yn greadigol. Mae gradd yn y Gymraeg yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr brofi gwerth diwylliannol y Gymraeg ac i gyfrannu at ei ffyniant fel iaith fyw. Wrth arbenigo ym maes y Gymraeg, byddant hefyd yn meithrin sgiliau trosglwyddadwy a fydd yn eu paratoi at amrywiaeth eang o gyd-destunau proffesiynol.

2.2 Bydd graddau'n cael eu cynllunio mewn modd a fydd yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr archwilio gwahanol agweddau ar ddisgyblaeth y Gymraeg (yn ieithyddol, sosioieithyddol, llenyddol a diwylliannol), gan roi dewis ystyrlon iddyn nhw ddilyn eu diddordebau o fewn y pwnc. Bydd myfyrwyr yn ymgyswrtu â'r prif gysyniadau, safbwyntiau a dulliau dadansoddi sy'n gysylltiedig ag astudio'r Gymraeg, a'u rhoi ar waith. Byddant hefyd yn gyfarwydd â datblygiad yr iaith a'i llenyddiaeth dros amser, er mwyn gallu amgylfred dylanwad y gorffennol ar sefyllfa'r Gymraeg, ei diwylliant a'i llenyddiaeth heddiw.

2.3 Er mwyn galluogi i fyfyrwyr ddatblygu'n gyfathrebwyr medrus, bydd cynllun rhaglenni gradd yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu dealltwriaeth o nodweddion a gramadeg y Gymraeg a'i chyweiriau amrywiol, a chymhwyso'r wybodaeth honno wrth gynhyrchu gwaith llafar, ysgrifenedig a digidol ar gyfer gwahanol ddibenion a chynulleidfaoedd.

2.4 Gall darparwyr gynnig mwy nag un llwybr o fewn graddau israddedig yn y Gymraeg er mwyn cydnabod yr amrywiaeth o brofiadau dysgu a chefnidiroedd ieithyddol sydd gan fyfyrwyr wrth ddechrau ar eu hastudiaethau. O fewn cynllun gradd tair blynedd, gall hyn gynnwys mwy nag un llwybr astudio, er enghraifft:

- Llwybr i fyfyrwyr sy'n barod i ymgymryd â'r rhaglen BA Cymraeg heb ddarpariaeth ychwanegol (er enghraifft, myfyrwyr sydd wedi derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg)
- Llwybr pontio i fyfyrwyr sydd â sylfaen gadarn yn y Gymraeg ond a fyddai'n elwa ar flwyddyn gyntaf fwy dwys neu strwythuredig i ddatblygu eu hyder a'u gallu i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau academaidd (er enghraifft, myfyrwyr sydd wedi derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Saesneg).

Yn ychwanegol, gall darparwyr gynnig cynllun gradd pedair blynedd ar gyfer myfyrwyr sy'n newydd i'r Gymraeg. Wedi blwyddyn o ddysgu iaith fel dechreuwyr, bydd y myfyrwyr hynny'n ymuno â'r llwybr pontio yn eu hail flwyddyn. Bydd yr holl lwybrau hyn yn arwain at yr un disgwyliadau academaidd a'r un deilliannau dysgu erbyn diwedd y cwrs gradd, gyda myfyrwyr yn astudio gyda'i gilydd wrth iddynt symud drwy'r rhaglen.

2.5 Ar lefel israddedig, gellir cyfuno'r Gymraeg â phwnc arall ar radd anrhydedd gyfun neu gydanrhydedd. Yn yr achosion hynny, dylid dylunio'r cwricwlwm mewn modd sy'n sicrhau bod cyfle i fyfyrwyr ddatblygu mwyafrif y sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth a nodir yn y Datganiad Meincnodi hwn.

2.6 Ar lefel ôl-raddedig, ceir cryn amrywiaeth a hyblygrwydd, a gall darpariaeth sy'n gysylltiedig â disgyblaeth y Gymraeg gyfrannu at raddau ôl-raddedig a addysgir mewn cyd-destunau megis astudiaethau Celtaidd, astudiaethau Cyfieithu, yn ogystal ag ym maes y Gymraeg yn benodol. Mae graddau ôl-raddedig a addysgir yn galluogi i fyfyrwyr arbenigo yn eu priod feysydd, gan feithrin uwch-sgiliau ymchwil a dehongli a all arwain at amrywiaeth o lwybrau gyrfaoel, gan gynnwys ymchwil ddoethurol.

Cynnydd

2.7 Dros gwrs israddedig safonol sy'n arwain at radd gydag anrhydedd (lefel 6 y FHEQ neu lefel 10 SCQF) neu, os yw ar gael, radd meistr integredig (lefel 7 y FHEQ neu lefel 11 SCQF), bydd myfyriwr sy'n astudio'r Gymraeg yn symud o un lefel o astudiaeth i'r nesaf, yn unol â rheoliadau a phrosesau pob sefydliad. Fodd bynnag, disgwylir i'r myfyriwr ddysgu gwybodaeth a sicrhau arbenigedd a phrofiad ar bob lefel sy'n adeiladu tuag at y cyflawniad terfynol o ddysgu'r sgiliau pwnc-benodol a generig ar lefel trothwy (neu lefel uwch, os yw hyn yn benodol) sydd wedi eu rhestru yn y Datganiad hwn. Bydd hyn fel arfer yn cynnwys cwblhad llwyddiannus a dyfarniad credyd am yr ystod lawn o ddysgu ac asesu, yn cynnwys unrhyw gydrannau ymarferol.

2.8 Pan fyddant yn graddio gyda gradd gyntaf, byddai disgwyl i'r myfyrwyr sydd wedi cyflawni gradd ail ddosbarth neu'n uwch fod â'r gallu a'r sgiliau i astudio ar lefel ôl-raddedig yn y Gymraeg neu faes astudio cysylltiedig. Fodd bynnag, y darparwyr unigol sy'n penderfynu beth yw gofynion mynediad y cyrsiau ôl-raddedig, ac efallai y bydd angen lefelau penodol o gyflawniad arnynt ar lefel israddedig.

2.9 Bydd myfyrwyr israddedig sy'n astudio cyrsiau yn y Gymraeg yn rhan o radd anrhydedd gyfun neu gydanrhydedd (gan gynnwys cyrsiau sy'n nodi opsiynau mawr a bach) yn cwblhau elfennau craidd y sgiliau penodol a'r sgiliau generig sydd wedi eu hamlinellu yn y Datganiad hwn a byddant yn ychwanegu eraill yn dibynnu ar y maes/meysydd astudio arall/eraill sy'n rhan o'u gradd. Yn ogystal, efallai y byddant yn archwilio'r gorgyffwrdd rhwng gwahanol feysydd astudio, gan greu rhagor o gyfleoedd i wneud astudiaethau rhyngddisgyblaethol.

2.10 Gall unrhyw fyfyrwr sydd wedi eu cofrestru ar gwrs israddedig safonol sy'n arwain at radd gydag anrhydedd mewn yn y Gymraeg ymadael yn gynharach a bod yn gymwys i gael Tystysgrif Addysg Uwch (lefel 4 y FHEQ neu lefel 8 SCQF), Diploma Addysg Uwch (lefel 5 y FHEQ neu lefel 9 SCQF), neu ddyfarniadau eraill, yn dibynnu ar y lefelau o astudio a gyflawnir i safon foddhaol. Mae gwybodaeth fanylach i'w chael am 'bwyntiau torri' mewn rhaglenni gradd yn y Datganiad o Nodweddion ar gyfer Cymwysterau Cylch Byr, ['Characteristics Statement - Short Cycle Qualifications'](#) (yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd).

Hyblygrwydd

2.11 Yn achos darparwyr yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, hyd cwrs llawn amser sy'n arwain at radd gyntaf safonol yw tair blynedd fel arfer, neu bedair blynedd ar gyfer cyrsiau Cymraeg i ddechreuwyd neu gyrsiau sy'n cynnwys blwyddyn o astudio dramor (megis rhaglenni sy'n ymwneud ag ieithoedd) neu flwyddyn ar leoliad gwaith, neu ar gyfer gradd meistr integredig. Mae myfyrwyr sy'n dilyn llwybrau rhan amser yn casglu credydau academaidd yn gymesur â dwyster eu hastudiaeth, a byddai cyfanswm eu hamser astudio a'u credydau'n gyfatebol â'r rhai a gyflawnir ar lwybrau llawn amser.

2.12 Mae darparwyr addysg uwch yn strwythuro'r cyrsiau y maent yn eu cynnig i gefnogi'r myfyrwyr gyda'u dysgu a'u cyrhaeddiad. Yn dibynnu ar genhadaeth addysgol y darparwr, gallai hyn gynnwys cyfleoedd i ddysgu ar y safle, ar-lein a/neu hybrid, wedi eu trefnu mewn tymhorau, fesul semester, am flwyddyn o hyd, mewn blociau neu mewn fformatau eraill. Gallant fod wedi eu cynnig drwy astudio'n llawn amser neu'n rhan amser, a gellir casglu credydau drwy gwblhau micro-gymwysterau neu gyrsiau achrededig byr, neu drwy gydnabod dysgu blaenorol neu achredu dysgu profiadol blaenorol.

Partneriaeth

2.13 Gallai cyrff dyfarnu graddau ddarparu cyrsiau mewn partneriaeth â darparwyr eraill trwy drefniadau dilysu a masnachfreinio. Gallai eraill weithio gyda phartneriaid sy'n darparu

elfennau penodol y cwrs drwy ddysgu yn y gweithle neu yn rhan o brentisiaeth gradd. Mae Datganiadau Meincnodi Pwnc fel hwn yn chwarae rôl bwysig wrth helpu partneriaid i ddylunio darpariaeth sy'n sicrhau bod safonau trothwy'n cael eu cyflawni mewn maes astudio penodol.

2.14 Mae partneriaethau gyda rhanddeiliaid, busnesau a sefydliadau amrywiol yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr ymwneud â chyflogwyr a dysgu sgiliau proffesiynol mewn ffordd ymarferol. Mae modd i bartneriaethau o'r fath alluogi i gyflogwyr fod yn rhan o'r broses o lunio ac adolygu'r cwricwlwm, ymddangos fel siaradwyr gwadd neu gynnig interniaethau a chyfnodau o brofiad gwaith i fyfyrwyr. Gall y partneriaethau hyn gynnwys meysydd megis cyfieithu, marchnata, gwleidyddiaeth a'r diwydiannau creadigol. Drwy gynnig cyfleoedd profiad gwaith gall myfyrwyr roi'r sgiliau a ddysgant ar waith a chael blas ar weithio drwy gyfrwng y Gymraeg neu mewn sefydliadau dwyieithog. Mae ymgorffori cyfleoedd o'r fath ar y rhaglen radd yn ffordd effeithiol o amlygu'r drysau amrywiol y gall gradd yn y Gymraeg eu hagar, ac yn datblygu ymwybyddiaeth myfyrwyr o'r ffactorau sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal hyfiewedd y Gymraeg mewn gweithleoedd.

2.15 Mae gradd yn y Gymraeg yn arwain at amrywiaeth eang o yrfaeodd, ac yn wyneb y prinder athrawon cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, mae'n arbennig o bwysig cynnal partneriaethau gydag ysgolion, colegau a sefydliadau addysgol perthnasol eraill (er enghraifft, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Addysg Cymru a Chymwysterau Cymru). Gall y cysylltiadau hyn ddatblygu dealltwriaeth myfyrwyr o'r berthynas rhwng addysg ac adfywio ieithoedd lleiafrifedig, yn ogystal â chynnig cyfle i staff ymgysylltu'n ehangach gyda'r sector a sicrhau dilyniant i'r ddisgyblaeth o'r ysgol i'r brifysgol.

2.16 Partneriaeth bwysig a pherthnasol i nifer o ddarparwyr gradd yn y Gymraeg yw'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Yn ogystal â chefnogaeth ariannol i fyfyrwyr, mae'r Coleg Cymraeg yn cynnig nifer o gyfleoedd i fyfyrwyr fod yn llysgenhadon sy'n ymgysylltu â darpar fyfyrwyr a rhoi'r sgiliau y maent yn eu dysgu ar y rhaglen radd ar waith.

Monitro ac adolygu

2.17 Mae cyrff dyfarnu graddau, a'u partneriaethau cydweithredol, yn casglu a dadansoddi gwybodaeth yn rheolaidd ac yn gwneud adolygiad cwrs cyfnodol yn unol â'u hanghenion eu hunain. Bydd ystyried llais y myfyriwr yn rhan bwysig o hyn. Maen nhw'n defnyddio amrywiaeth o bwyntiau cyfeirio allanol, yn cynnwys y Datganiad hwn, i sicrhau bod eu darpariaeth yn alinio â normau'r sector. Mae monitro a gwerthuso'n asesiad cyfnodol o gwrs, a wneir yn fewnol neu'n allanol gan werthuswyr annibynnol allanol. Mae gwerthusiad yn defnyddio gwybodaeth o fonitro cyfredol a hanesyddol i ddatblygu dealltwriaeth o gyflawniad myfyrwyr neu i hysbysu cynllunio cyrsiau yn y dyfodol.

2.18 Mae allanoldeb yn gydran hanfodol o'r system sicrhau ansawdd yn y DU. Bydd darparwyr yn defnyddio adolygwyr allanol yn rhan o adolygiad cyfnodol i gael safbwynt annibynnol ar unrhyw newidiadau a gynigir ac i sicrhau bod safonau trothwy'n cael eu cyflawni, a bod y cynnwys yn briodol ar gyfer y pwnc.

2.19 Mae'r system arholi allanol sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd ar draws sector addysg uwch y DU hefyd yn helpu i sicrhau cysondeb yn y ffordd y mae safonau academiaidd yn cael eu diogelu gan gyrff dyfarnu graddau. Fel arfer, gofynnir i arholwyr allanol roi sylwadau ar fathau, egwyddorion a phwrpasau asesiadau sy'n cael eu cynnig i fyfyrwyr. Byddant yn ystyried y mathau o fodiwlau a gynigir i fyfyrwyr, canlyniadau un garfan a sut y mae'r rhain yn cymharu â darpariaeth debyg a gynigir mewn darparwyr addysg uwch eraill yn y DU. Gofynnir i arholwyr allanol gynhyrchu adroddiad bob blwyddyn a gwneud argymhellion am newidiadau i fodiwlau ac asesiadau (lle bo'n briodol). Mae Datganiadau Meincnodi Pwnc fel hwn yn gallu chwarae rôl bwysig i gefnogi arholwyr allanol wrth iddynt gynghori a yw safonau trothwy'n cael eu cyflawni ai peidio mewn meysydd pwnc penodol.

2.20 Gallai cyrsiau sy'n arwain at ddeilliannau proffesiynol a galwedigaethol hefyd ofyn am werthusiad ac achrediad gan gyrff proffesiynol a rheoleiddio. Mae'r rhain yn cael eu gwneud fel arfer drwy gyfuniad o ymweliadau safle ac adolygiadau desg.

3. Cynnwys, strwythur a darpariaeth

3.1 Mae'r adran hon yn archwilio sut mae cynnwys y cwricwlwm ar gyfer cyrsiau yn y Gymraeg yn siapio'r strategaeth addysgu a dysgu debygol a'r dulliau asesu sy'n caniatáu i fyfyrwyr ddangos eu bod wedi cyrraedd y safonau meincnodi, ac sy'n gwahaniaethu rhwng gwahanol lefelau cyrhaeddiad.

Cynnwys

3.2 Gall union gynnwys cyrsiau BAAnrhydedd yn y Gymraeg amrywio yn ôl darparwr, math o radd (gradd anrhydedd sengl, gyfun neu gyd-anrhydedd), a'r llwybrau astudio a gynigir yn ôl anghenion ieithyddol myfyrwyr (gwelwch 2.4 uchod). Er hyn, bydd cynnwys pob cwrs wedi'i gynllunio er mwyn ennyn diddordeb a dealltwriaeth myfyrwyr am yr iaith, ieithyddiaeth, llenyddiaeth a diwylliant y Gymraeg mewn cyd-destunau hanesyddol a chyfoes. Archwilir ffurfiau llenyddol amrywiol a thestunau anllenyddol i ddatblygu sgiliau beirniadol, dadansoddol a chreadigol trosglwyddadwy.

3.3 Mae modiwlau iaith yn galluogi i fyfyrwyr o bob cefndir ieithyddol fod yn arbenigwyr iaith drwy ddatblygu eu dealltwriaeth o ramadeg y Gymraeg, ei thafodieithoedd, a'i defnydd mewn amrywiaeth o gyd-destunau gwahanol. Bydd digonedd o gyfleodd i fyfyrwyr gynhyrchu testunau at ddibenion gwahanol yn ogystal ag egluro a chyfiawnhau penderfyniadau golygyddol. Gall modiwlau iaith roi cyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau dwyieithog hanfodol megis trawsieithu a chyfieithu proffesiynol. Gall cyrsiau gynnwys modiwlau ym maes ieithyddiaeth y Gymraeg, boed hynny drwy daflu goleuni ar gaffael y Gymraeg fel iaith gyntaf neu fel ail iaith (gan gynnwys addysgeg iaith), hanes a datblygiad yr iaith a'i hamrywiadau ieithyddol, neu drwy archwilio sefyllfa'r Gymraeg a'i chyd-destun sosioieithyddol yn y Gymru gyfoes.

3.4 Mae modiwlau llenyddol a diwylliannol yn datblygu gallu dadansoddol a chreadigol myfyrwyr wrth iddynt archwilio'r berthynas rhwng awdur, testun a darllenydd mewn gwahanol gyd-destunau hanesyddol a chyfoes. Bydd myfyrwyr yn meithrin y gallu i graffu ar destunau'n fanwl gan ddechongli testunau Cymraeg yng nghyd-destun amgylchiadau cymdeithasol a chysyniadau beirniadol sy'n cysylltu â Chymru ac â phrofiadau, grymoedd a datblygiadau byd eang. Rhoddir y cyfle i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau ysgrifennu creadigol hefyd, naill ai drwy gynnig modiwlau penodol neu fel elfen ar fodiwlau eraill.

3.5 Yn aml, bydd rhaglenni gradd yn cynnwys modiwlau sy'n cyfuno'r elfennau a ddisgrifir yn 3.3. a 3.4, gan ganiatáu i fyfyrwyr archwilio'r gydberthynas rhwng ffactorau ieithyddol, cymdeithasol a llenyddol.

3.6 Drwy gyfuniad o fodiwlau amrywiol, bydd myfyrwyr yn datblygu'n gyfathrebwyr medrus, ar lafar ac mewn ysgrifen, sy'n gallu tynnu ar wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r Gymraeg - ei nodweddion, ei hanes a'i diwylliant - wrth ymateb i heriau a sefyllfaoedd amrywiol. Byddant hefyd yn hyderus wrth weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm.

3.7 Drwy alluogi i fyfyrwyr ddatblygu amrediad eang o sgiliau ymarferol, deallusol a rhyngpersonol yn y dull a amlinellir uchod, bydd gradd yn y Gymraeg yn sbarduno diddordeb gyddol oes yn yr iaith, ei llên a'i diwylliant, ac yn ymateb i'r galw am weithwyr proffesiynol dwyieithog o safon uchel.

Dysgu ac addysgu

3.8 Bydd myfyrwyr sy'n astudio'r Gymraeg yn ymuno â chymuned ysgolheigaidd o arbenigwyr sy'n gwneud gwaith ymchwil ac yn cyhoeddi yn eu priod feysydd, yn cynghori ac yn ymgynghori â sefydliadau a phartneriaid allanol, ac yn cyfrannu at ddatblygu dealltwriaeth y cyhoedd o

lenyddiaeth, diwylliant, cyflwr, statws ac anghenion y Gymraeg a'i chyd-destunau sy'n esblygu'n barhaus. Mae'r arbenigedd a'r profiad hwn yn cyfoethogi rhaglenni gradd ac yn galluogi i fyfyrwyr ymwneud yn uniongyrchol ag ysgolheictod cyfredol a chymryd rhan mewn dadleuon am y Gymraeg a'i dyfodol.

3.9 Bydd addysgwyr ac adrannau unigol yn defnyddio dulliau dysgu amrywiol a rhyngweithiol, yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i, ddarlithoedd, seminarau, gweithdai, tiwtorialau a theithiau maes. Bydd pwyslais sesiynau dysgu ar alluogi i fyfyrwyr gymhwyso eu gwybodaeth i amrywiaeth o gyd-destunau, a gellir teilwra'r oriau cyswllt i alluogi i fyfyrwyr gydweithio ag eraill yn ogystal â gweithio'n annibynnol.

3.10 Oherwydd pwyslais addysg uwch ar feithrin dysgwyr ac ymchwilwyr mwyfwy annibynnol, rhan yn unig o brofiad addysgol myfyrwyr yw'r oriau cyswllt yn y dosbarth. Er mwyn hybu ac annog medrau academiaidd y myfyrwyr, gall addysgwyr strwythuro'r dysgu drwy osod gwaith paratoi a gweithgareddau atodol i'r myfyrwyr eu cwblhau. Bydd rhestrau darllen hygyrch wedi eu teilwra ar gyfer anghenion myfyrwyr yn sylfaen i bob modiwl ac, yn aml, yn dilyn strwythur cronolegol neu thematig.

3.11 Fel disgyblaeth sy'n canolbwyntio ar ddadansoddi a dehongli testun, data a ffynonellau eilaidd, mae mynediad at lyfrgelloedd, archifau a chronfeydd data'n hollbwysig i addysg myfyrwyr a bydd cydweithio priodol rhwng addysgwyr â gwasanaethau gwybodaeth a llyfrgelloedd. Gall ymgynghori â chopïau gwreiddiol o gyhoeddiadau a dogfennau fod yn brofiad addysgol ysbrydoledig ynddo'i hun, a dylai darparwyr sicrhau bod adnoddau print ar gael yn ogystal â rhai electronig.

3.12 Er mwyn sicrhau bod dewis ystyrion o fodiwlau ar gael i fyfyrwyr, mae modd dysgu myfyrwyr o wahanol grwpiau blwyddyn gyda'i gilydd, gan ddefnyddio deilliannau dysgu a/neu asesiadau er mwyn gwahaniaethu rhwng gwahanol lefelau.

Asesu

3.13 Bydd rhaglenni Cymraeg yn cynnig amrywiaeth o ddulliau asesu sy'n galluogi i fyfyrwyr ddatblygu eu gallu i gyfathrebu, cydweithio, a meddwl yn feirniadol ac yn greadigol. Bydd asesiadau ffurfiannol a chrynodol yn alinio â'r cwricwlwm a'r deilliannau dysgu, ac yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr arddangos eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u sgiliau. Bydd deilliannau dysgu a meini prawf yn cael eu rhannu â myfyrwyr drwy gyfrwng llawlyfrau rhaglen a deunyddiau modiwl. Bydd adborth ar waith ffurfiannol a chrynodol yn rhan hanfodol o'r broses asesu, ac yn galluogi i fyfyrwyr fyfyrion ar eu sgiliau a'u datblygu.

3.14 Drwy gynnig ystod o wahanol fathau o asesiadau, mae modd cynnig yr hyblygrwydd sy'n angenrheidiol er mwyn cefnogi pob myfyriwr i gyrraedd ei botensial. Rhoddir pwyslais ar lunio asesiadau hygyrch, cynhwysol sy'n ystyried gwahanol anghenion ac addasiadau rhesymol. Yn ogystal, darperir gwybodaeth a chanllawiau asesu sy'n eglur ac yn hygyrch i bawb. Bydd dulliau asesu'n cael eu hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau eu bod yn addas ac yn gyfredol.

3.15 Bydd y broses asesu'n paratoi myfyrwyr ar gyfer anghenion amrywiol ymchwil ôl-raddedig a'r gweithle, gan roi'r cyfle iddynt arddangos ystod o sgiliau pynciol a throsglwyddadwy. Bydd cyfran o'u hasesiadau'n gofyn iddynt gymhwyso eu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y Gymraeg wrth ymgymryd â thasgau sy'n gysylltiedig â byd gwaith neu waith cymunedol. Bydd hyn yn meithrin eu hyder i gyfrannu'n rhagweithiol at weithleoedd a chymunedau Cymraeg a dwyieithog yn y dyfodol, yn ogystal â datblygu eu dealltwriaeth o'r ffactorau cymdeithasol, seicolegol, economaidd ac amgylcheddol sy'n effeithio ar gynaliadwyedd y Gymraeg.

3.16 Yn aml, bydd myfyrwyr yn cymhwyso sgiliau digidol wrth ymgymryd ag asesiadau, gan arddangos eu dealltwriaeth o bwysigrwydd ac effaith technoleg ar wahanol ddulliau o

gyfathrebu a chyweiriau ieithyddol. Gall datblygiad DA cynhyrchio gynnydd cyfleoedd i arbrofi â gwahanol ddulliau a chyweiriau, ond gall hefyd effeithio ar allu myfyrwyr i ddatblygu eu hyder yn eu mynegiant a'u lleisiau eu hunain. Wrth ddylunio rhaglenni a modiwlau, cynigir dulliau asesu sy'n cefnogi'r broses ddysgu ac yn galluogi i fyfyrwyr arddangos gwreiddioldeb a chreadigrwydd wrth gymhwyso eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u sgiliau yn y Gymraeg.

3.17 Bydd y broses asesu'n rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau cydweithredol trosglwyddadwy drwy gydweithio ag eraill er mwyn archwilio pynciau a thestunau, ystyried safbwyntiau amrywiol, a threfnu a chyflwyno gwaith.

3.18 Gall dulliau asesu yn y Gymraeg gynnwys:

- traethodau a mathau eraill o waith cwrs sy'n profi gallu myfyrwyr i archwilio pwnc mewn dyfnder, trefnu deunyddiau a chyfathrebu syniadau
- arholiadau sy'n gofyn i fyfyrwyr gymhwyso eu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau i dasg benodol mewn modd beirniadol o fewn amser penodedig
- ysgrifau a sylwebaethau sy'n adfyfrio ar brofiadau a datblygiad sgiliau
- adroddiadau, poster ymchwil, papurau trafod ac astudiaethau achos
- portffolio o waith creadigol
- tasgau ac ymarferion ieithyddol (er enghraifft, tasgau gramadeg, cyfieithu, golygu)
- cyflwyniadau llafar ynghyd â defnydd priodol o dechnoleg er mwyn asesu sgiliau cyfathrebu unigol a/neu wrth ryngweithio ag eraill
- trafodaethau seminar
- asesiadau digidol (er enghraifft, podlediad, fideo, e-boster).

4. Safonau meincnodi

Cyflwyniad

4.1 Mae'r Datganiad Meincnodi Pwnc hwn yn nodi'r safon trothwy gofynnol a'r safon nodweddiadol y bydd myfyriwr wedi eu dangos pan ddyfernir gradd anrhydedd iddynt yn y Gymraeg. Mae'r safon trothwy'n gyfystyr â gradd anrhydedd trydydd dosbarth, a'r safon nodweddiadol gyfystyr â gradd anrhydedd ail ddosbarth. Bydd arddangos y safonau hyn dros amser yn dangos bod myfyriwr wedi cyflawni'r ystod o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau a ddisgwyllir gan raddedigion yn y Gymraeg.

4.2 Bydd y mwyafrif llethol o'r myfyrwyr yn perfformio'n sylweddol well na'r safonau trothwy gofynnol. Mae gan bob darparwr addysg uwch ei ddull ei hun o benderfynu pa dystiolaeth briodol o'r cyflawniad hwn fydd yn ofynnol, gan gyfeirio at [Atodiad D y Fframweithiau ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch cyrff dyfarnu graddau'r DU \(FHEQ\)](#). Mae'r Atodiad hwn yn nodi disgrifiadau cyffredin y pedwar prif ddosbarthiad deilliannau gradd ar gyfer graddau baglor gydag anrhydedd - 1af, 2.1, 2.2 a 3ydd.

4.3 Nodwch nad yw'r safonau trothwy gofynnol wedi eu bwriadu i nodi'n fanwl beth yw'r safonau gallu cyffredinol ar gyfer disgyblaeth benodol. Os bydd darparwr yn dewis datblygu safonau gallu (fel y maent wedi eu diffinio gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) yn rhan o fanyleb rhaglen, gall y rhain gael eu hysbysu gan y Datganiad Meincnodi perthnasol ynghyd ag unrhyw ofynion gan y cyrff PSRh. Dan yr amgylchiadau hyn, dylai darparwyr ddilyn y canllawiau diweddaraf gan y [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#).

4.4 Nid yw'r safonau a ddisgrifir isod yn diffinio nac yn awgrymu cwricwlwm cyffredin ar gyfer y Gymraeg fel pwnc. Bydd cynnwys rhaglenni gradd israddedig y Gymraeg yn amrywio o ddarparwr i ddarparwr wrth iddynt gymhwyso'r safonau yn unol â'u harbenigeddau a'u hanghenion. Mae'r hyblygrwydd hwn yn hanfodol er mwyn cynnal yr ystod eang o feysydd amrywiol sy'n perthyn i'r Gymraeg fel pwnc, ac ysgogi ymchwil bellach o fewn y ddisgyblaeth.

4.5 Fel arfer, bydd y safonau a nodir isod yn cael eu hamlygu mewn ffyrdd sy'n cydblethu ac yn cefnogi ei gilydd.

4.6 Y Safonau Meincnodi

Y LEFEL TROTHWY	Y LEFEL NODWEDDIADOL
Wrth raddio â gradd anrhydedd yn y Gymraeg fel pwnc, bydd myfyrwyr sy'n cyrraedd y lefel trothwy yn gallu:	Wrth raddio â gradd anrhydedd yn y Gymraeg fel pwnc, bydd myfyrwyr sy'n cyrraedd y lefel nodweddiadol yn gallu:
Gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sy'n benodol i'r pwnc	
<i>laith a chyfathrebu</i>	
cynhyrchu gwaith gwreiddiol sy'n arddangos dealltwriaeth o brif nodweddion a gramadeg y Gymraeg, gan gynnwys agweddau ar arddull, cywair, tafodieithoedd ac amrywiadau ieithyddol	cynhyrchu gwaith gwreiddiol sy'n arddangos dealltwriaeth drwyadl o nodweddion a gramadeg y Gymraeg, gan gynnwys amryw o arddulliau, cyweiriau, tafodieithoedd ac amrywiadau ieithyddol
cyfathrebu syniadau, gwybodaeth a dadleuon yn glir, yn rhesymegol ac yn drefnus, drwy gynhyrchu gwaith llafar ac ysgrifenedig gwreiddiol	cyfathrebu syniadau, gwybodaeth a dadleuon cymhleth yn effeithiol, yn rhesymegol ac yn drefnus, drwy gynhyrchu gwaith llafar ac ysgrifenedig gwreiddiol o safon uchel
addasu iaith, arddull a chywair i weddu i wahanol gynulleidfaoedd, dibenion a chyd-destunau	addasu iaith, arddull a chywair mewn modd hyblyg a phwrpasol i ddiwallu anghenion amrywiol gynulleidfaoedd, dibenion a chyd-destunau
<i>Y Gymraeg: ei datblygiad a'i defnydd</i>	
esbonio'r prif ddatblygiadau hanesyddol, cymdeithasol, llenyddol a diwylliannol sydd wedi dylanwadu ar ddatblygiad y Gymraeg a'r defnydd ohoni	dadansoddi'n feirniadol y prif ddatblygiadau hanesyddol, cymdeithasol, llenyddol a diwylliannol sydd wedi llywio datblygiad y Gymraeg a'r defnydd ohoni
gwerthuso sefyllfa'r Gymraeg fel iaith leiafrifedig a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ei statws, ei chynaliadwyedd a'i datblygiad mewn cyd-destun lleol, cenedlaethol a rhyngwladol	dehongli'n feirniadol sefyllfa'r Gymraeg fel iaith leiafrifedig a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ei statws, ei chynaliadwyedd a'i datblygiad mewn cyd-destun lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
disgrifio ac archwilio'r ffactorau sy'n cynnal ac yn herio hyfywedd y Gymraeg yn y gymuned a'r gweithle, a sut y gall sgiliau graddedigion y Gymraeg gyfrannu'n gadarnhaol at barhad a dyfodol yr iaith	dadansoddi a gwerthuso'r ffactorau sy'n cynnal ac yn herio hyfywedd y Gymraeg yn y gymuned a'r gweithle, a sut y gall sgiliau graddedigion y Gymraeg gyfrannu'n gadarnhaol at barhad a dyfodol yr iaith
<i>Dadansoddi llenyddiaeth Gymraeg</i>	

• dadansoddi cynnwys, techneg ac arwyddocâd ystod o destunau llenyddol o gyfnodau gwahanol, gan gymhwyso dulliau dehongli a theorïau beirniadol addas	• arddangos gwreiddioldeb a threiddgarwch wrth ddehongli cynnwys, techneg ac arwyddocâd ystod o destunau llenyddol o gyfnodau gwahanol, gan ymateb yn graff i ddulliau dehongli a theorïau beirniadol amrywiol
• adnabod a deall y dylanwadau hanesyddol, cysyniadol, diwylliannol a chymdeithasol sy'n siapia testunau llenyddol a'n darlleniad ni ohonynt	• dadansoddi a dehongli'r berthynas gymhleth rhwng testunau llenyddol a'r ffactorau hanesyddol, cysyniadol, diwylliannol a chymdeithasol cymhleth sy'n dylanwadu ar y modd y cânt eu creu a'u dehongli
• adnabod rôl darllenwyr, cynulleidfaoedd a chymunedau wrth lunio a dehongli ystyr testunau	• gwerthuso'n feirniadol rôl darllenwyr, cynulleidfaoedd a chymunedau wrth lunio, dehongli a herio amrywiol ystyron testunau
<i>Hunaniaethau lleol a byd-eang</i>	
• adnabod sut y mae'r Gymraeg a'i llenyddiaeth yn cyfrannu at lunio, mynegi ac adlewyrchu safbwyntiau a hunaniaethau amrywiol	• dadansoddi'n feirniadol sut y mae'r Gymraeg a'i llenyddiaeth yn cyfrannu at lunio, mynegi ac adlewyrchu safbwyntiau a hunaniaethau amrywiol
• myfyrio ar y profiadau, lleisiau a hunaniaethau a fynegir gan lenyddiaeth ac ysgolheictod y Gymraeg, gan adnabod bylchau a herio tangynrychiolaeth	• myfyrio'n feirniadol ar y profiadau, lleisiau a hunaniaethau a fynegir gan lenyddiaeth ac ysgolheictod y Gymraeg, gan adnabod bylchau a herio tangynrychiolaeth
• gosod y Gymraeg a'i llenyddiaeth yng nghydestun cysyniadau, ieithoedd a diwylliannau byd eang	• amlygu sut y gall dealltwriaeth a gwybodaeth am y Gymraeg a'i llenyddiaeth gyfrannu mewn modd ystyrlon at drafodaethau a chyddestunau rhwngwladol, gan dynnu cymariaethau rhwng ieithoedd, diwylliannau a safbwyntiau amrywiol
<i>Ymdrin â ffynonellau</i>	
• dadansoddi a gwerthuso ymchwil ac ysgolheictod sy'n ymwneud â'r Gymraeg, ei llenyddiaeth, ei diwylliant a'i chymdeithas	• dadansoddi'n feirniadol gyfraniad a chyfyngiadau ymchwil ac ysgolheictod sy'n ymwneud â'r Gymraeg, ei llenyddiaeth, ei diwylliant a'i chymdeithas, gan werthuso gwahanol safbwyntiau ysgolheigaidd
• archwilio, dadansoddi, ac asesu dibynadwyedd ffynonellau, data a thystiolaeth wrth eu cymhwyso at gwestiynau ymchwil ynghylch y Gymraeg	• archwilio, dadansoddi, ac asesu dibynadwyedd ffynonellau, data a thystiolaeth yn feirniadol wrth lunio cwestiynau ymchwil ac ymatebion annibynnol a gwybodus ynghylch y Gymraeg

adnabod rhagdybiaethau, amwysedd, ansicrwydd a goddrychedd wrth werthuso syniadau a dadleuon ar sail tystiolaeth	herio rhagdybiaethau ac amlygu amwysedd, ansicrwydd, goddrychedd a therfynau gwybodaeth wrth werthuso syniadau a dadleuon ar sail tystiolaeth
adnabod sut y gall syniadau, safbwyntiau, gwerthoedd a moesau mewn testunau a disgysiau amrywio, a bod yn barod i ystyried safbwyntiau gwahanol neu anghyfarwydd â meddwl agored	dehongli a chymharu'r modd y mae syniadau, safbwyntiau, gwerthoedd a moesau mewn testunau a disgysiau'n amrywio, ac ymgysylltu'n feirniadol â safbwyntiau amrywiol neu anghyfarwydd â meddwl agored
<i>Creu a chynhyrchu</i>	
llunio dadleuon cydlynol, gwybodus a datblygu eu safbwyntiau beirniadol annibynnol eu hunain, wrth ymateb i themâu a materion cymhleth	arddangos y gallu i lunio dadleuon soffistigedig sy'n argyhoeddi wrth ddatblygu ymatebion annibynnol a dychmygus i themâu a materion cymhleth
cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i ddod i gasgliadau teg ar sail tystiolaeth	cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o ffynonellau amrywiol i lunio casgliadau gwybodus, rhesymegol a gwreiddiol
ymddwyn yn foesebol ac yn gyfrifol wrth gyfeirio at waith, syniadau a data pobl eraill, gan ddilyn confensiynau academiaidd priodol	cymhwyso confensiynau academiaidd priodol wrth gyfeirio at waith, syniadau a data pobl eraill, gan ddangos dealltwriaeth ymestynnol o ystyriaethau moesebol gwaith ymchwil
dangos creadigrwydd wrth ddehongli, dadansoddi neu gynhyrchu testunau, gan ddefnyddio ystod briodol o dechnegau ac arddulliau	dangos gwreiddioldeb a chreadigrwydd wrth ddehongli, dadansoddi neu gynhyrchu testunau, gan ddefnyddio ystod o dechnegau ac arddulliau mewn modd hyderus
cynllunio a chyflawni portffolio neu brosiect ymchwil neu greadigol annibynnol gan ddefnyddio dulliau a methodolegau priodol	arddangos annibyniaeth a blaengarwch wrth ddylunio, rheoli a chyflawni portffolio neu brosiect ymchwil neu greadigol gan gymhwyso ystod o ddulliau a methodolegau priodol
defnyddio sgiliau drafftio, diwygio, golygu a phrawfddarlenn i wella ansawdd a chywirdeb gwaith	mireinio a gwella ansawdd a chywirdeb gwaith drwy gymhwyso sgiliau golygu a hunanwerthuso datblygedig
defnyddio technolegau digidol a thechnolegau iaith i gasglu, dadansoddi, dethol a chyflwyno gwybodaeth mewn modd beirniadol, cyfrifol a moesebol, gan gynnwys ymateb i heriau a photensial deallusrwydd artiffisial	ymgysylltu'n feirniadol, yn foesebol, ac yn strategol â thechnolegau digidol a thechnolegau iaith i gasglu, dadansoddi, dethol a chyflwyno gwybodaeth, gan gynnwys gwerthuso heriau a photensial deallusrwydd artiffisial
<i>Ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio Ysgrifennu Creadigol fel rhan o'u gradd</i>	

cynhyrchu gwaith creadigol gwreiddiol sy'n dangos ymwybyddiaeth o ffurf, llais, safbwynt ac arddull	llunio gweithiau creadigol gwreiddiol a dychmygus sy'n dangos gafael gadarn ar ffurf, llais, safbwynt ac arddull
datblygu a chynhyrchu gwaith creadigol drwy ddrafftio, mireinio a golygu	datblygu a chynhyrchu gwaith creadigol yn effeithiol drwy broses adfyfyriol o ddrafftio, mireinio a golygu beirniadol
dangos ymwybyddiaeth o'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru a'r cyfleoedd amrywiol sydd ar gael i lenorion rannu eu gwaith creadigol ag eraill	dangos ymwybyddiaeth o'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru, gan ddeall y cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu llenorion wrth rannu eu gwaith ag eraill
Sgiliau cyffredinol	
cynllunio, trefnu a chwblhau tasgau mewn modd annibynnol a chyfrifol	dangos mentergarwch, annibyniaeth a hunanreolaeth wrth gynllunio, trefnu a chwblhau tasgau
cyfrannu'n adeiladol at weithgareddau cydweithredol drwy wrando'n ofalus, gofyn cwestiynau perthnasol, ac ymateb yn briodol i adborth	arwain neu gyfrannu'n adeiladol at weithgareddau cydweithredol drwy wrando'n ofalus, gofyn cwestiynau perthnasol, a defnyddio adborth yn adeiladol i wella canlyniadau
parchu a gwerthfawrogi safbwyntiau, profiadau a chefnidiroedd amrywiol wrth gydweithio ag eraill	hyrwyddo egwyddorion cydraddoldeb a chynhwysiant wrth ymgysylltu'n sensitif ac yn feirniadol ag eraill o safbwynt eu daliadau, profiadau a chefnidiroedd amrywiol
ymgysylltu'n broffesiynol â gweithleoedd, cymunedau a rhanddeiliaid, er enghraifft drwy brofiad gwaith	ymgysylltu'n hyderus ac yn broffesiynol â gweithleoedd, cymunedau a rhanddeiliaid, er enghraifft drwy gyfrannu'n adeiladol at y gweithle ar brofiad gwaith
dangos gwytnwch a hunanddisgyblaeth wrth ymateb i heriau academiaidd a phroffesiynol	dangos gwytnwch, hyblygrwydd a hunanddisgyblaeth wrth reoli heriau academiaidd a phroffesiynol
adfyfyrio ar ddatblygiad personol, academiaidd a phroffesiynol, gan ystyried ac ymateb i adborth	adfyfyrio'n feirniadol ar sgiliau personol, academiaidd a phroffesiynol, gan ddefnyddio adborth yn sail ar gyfer datblygiad a gwella parhaus
defnyddio sgiliau datrys problemau a meddwl beirniadol i fynd i'r afael â chwestiynau a sefyllfaoedd cymhleth	cymhwyso sgiliau datrys problemau a meddwl beirniadol mewn modd creadigol ac annibynnol i fynd i'r afael â chwestiynau a sefyllfaoedd cymhleth

dangos y gallu a'r cymhelliant angenrheidiol ar gyfer hyfforddi pellach a dysgu gydol oes	dangos ymrwymiad rhagweithiol i ddatblygiad personol a phroffesiynol parhaus a dysgu gydol oes
adnabod a chyfrannu at ddadleuon cyfredol ynghylch yr amgylchedd, cyfiawnder cymdeithasol, anghydraddoldeb a chynaliadwyedd	gwerthuso a chyfrannu'n wybodus at ddadleuon cyfredol ynghylch yr amgylchedd, cyfiawnder cymdeithasol, anghydraddoldeb a chynaliadwyedd
deall pwysigrwydd lles, iechyd meddwl ac emosiynau a'u perthynas â dysgu	deall pwysigrwydd lles, iechyd meddwl ac emosiynau a'u perthynas â dysgu, gan gymhwyso strategaethau priodol i gefnogi eu lles eu hunain ac eraill

5. Rhestr o gyfeiriadau ac adnoddau eraill

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

<https://colegcymraeg.ac.uk>

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2024). Nodyn cyngor ar gyfer y sector addysg uwch

www.equalityhumanrights.com/cy/arweiniad/nodyn-cyngor-ar-gyfer-y-sector-addysg-uwch-o-achos-cyfreithiol-prifysgol-bryste-yn-erbyn

QAA. Advice and Resources on Generative AI

www.qaa.ac.uk/sector-resources/generative-artificial-intelligence/qaa-advice-and-resources

Llywodraeth Cymru (2015). *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*

www.llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethau-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion-html

Llywodraeth Cymru (2017). *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr*

www.llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg

Llywodraeth Cymru (2025). *Deallusrwydd Artiffisial*

www.llyw.cymru/deallusrwydd-artiffisial-trosolwg

Y Cenhedloedd Unedig (2015). *Sustainable Development Goals*

<https://sdgs.un.org/goals>

Y pumed argraffiad

Cyhoeddwyd ar 5 Hydref 2026

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2026
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

www.qaa.ac.uk